

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
DIWYGIEDIG
(MEMORANDWM RHIF 2)**

BIL CYMRU

Mae'r Memorandwm hwn yn diwygio'r Memorandwm a gyflwynwyd ar 10 Ionawr. Yn unol â Rheol Sefydlog 29.3(v), mae'r Memorandwm diwygiedig hwn yn nodi sut a pham mae'r Memorandwm newydd yn wahanol i'r un blaenorol. Mae'r Memorandwm newydd yn cynnwys diwygiadau perthnasol a gyflwynwyd ar gyfer Trydydd Darlleniad y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae Atodiad 1 wedi diwygio i gynnwys manylion y gwelliannau perthnasol ar ddiwedd yr Atodiad. Yn ogystal, ar Ionawr 16eg, fe gywirwyd disgrifiad Gwelliant 104F (tudalen 6).

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Cymru (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2016. Mae'r Bil yn awr yn cwblhau cam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil [HL Bill 77 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor)] ar 23 Tachwedd 2016 a gellir ei gweld yn:
[Dogfennau'r Bil — Bil Cymru 2016-17 — Senedd y DU](#)

Amcanion Polisi a chefnidir y Bil

3. Amcanion Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw gweithredu'r elfennau hynny o [Bapur Gorchymyn](#) Dydd Gŵyl Dewi sy'n ei gwneud yn ofynnol i newid deddfwriaeth. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn symud at ddatganoli yn seiliedig ar fodel cadw pwerau, ac mae hefyd yn datganoli pwerau penodol eraill a argymhellwyd gan Gomisiwn Silk.
4. Mae cefndir y Bil a chrynodeb o'i brif ddarpariaethau i'w cael ym [Memorandwm Rhagarweiniol Llywodraeth Cymru ar Fil Cymru](#), a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2016.
5. Yn dilyn hyn, gosododd y Llywodraeth [Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 ar 21 Tachwedd](#). Mae'r Memorandwm hwnnw yn nodi'r darpariaethau y mae'n rhaid cael cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer gan gynnwys tabl (Atodiad A) o welliannau a gyflwynwyd, neu a gefnogwyd, gan Lywodraeth y DU yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau hynny wedi cael eu

cynnwys, wedi hynny, yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil a gyhoeddwyd yn dilyn cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

6. Ynghyd â'r darpariaethau a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 21 Tachwedd, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn nodi yn **Atodiad 1**, y gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod y cam Adrodd sy'n rhaid cael cydsyniad hefyd. Felly, rhaid i'r Memoranda cyntaf ac Atodol gael eu hystyried gyda'i gilydd wrth benderfynu ynghylch cydsyniad.
7. Mae'n rhaid cael cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yn y Memorandwm cyntaf (a'i Atodiad A), yn ogystal â'r darpariaethau yn Atodiad 1 i'r Memorandwm Atodol hwn, naill ai oherwydd eu bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

A ydyw'n briodol gwneud y darpariaethau hyn ym Mil Cymru ai peidio

8. Mae'n briodol i'r darpariaethau hyn gael eu cynnwys ym Mil Cymru yn yr ystyr na fyddai'n bosibl i'r Cynulliad basio Deddf y Cynulliad a fyddai'n cael yr un effaith.
9. Mae'r gwelliannau ar gyfer y cam Adrodd wedi'u cyflwyno yn awr. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid cymeradwyo bod cydsyniad yn cael ei roi i'r darpariaethau perthnasol ym Mil Cymru, a bydd yn cadarnhau ei safle yn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd i'w gynnal ar 17 Ionawr.

Casgliadau

10. Mae'r Memorandwm Atodol hwn gan gynnwys Atodiad 1, o'i ystyried ynghyd â'r Memorandwm cyntaf a osodwyd ar 21 Tachwedd, yn crynhoi'r darpariaethau y mae'n rhaid cael cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer o dan Reol Sefydlog 29. Cyhoeddwyd y Memorandwm hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 29 ac i ddarparu mwy o wybodaeth i hysbysu'r Cynulliad cyn ystyried rhoi cydsyniad.

Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Ionawr 2017

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL: BIL CYMRU:
GWELLIANNAU LLYWODRAETH Y DU A GYFLWYNWYD AR GYFER
CAM ADRODD TŶ'R ARGLWYDDI**

Rhif y Cymal / Atodlen	Rhif y Gwelliant	Pwnc y Gwelliant
Cymal 4	4	Yn newid y disgrifydd awdurdodau lleol. Nid yw'n newid y diffiniad.
Cymal 4	5	Roedd cyrff llywodraethu sefydliadau addysg uwch wedi eu rhestru yn Atodlen 9A yn flaenorol. Nid yw'r gwelliant hwn yn effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â'r cyrff hynny - maent yn parhau i gael eu cynnwys ymhlith "awdurdodau datganoledig Cymru", ond mae hynny'n digwydd yn rhinwedd y ddarpariaeth hon yn hytrach na thrwy eu cynnwys yn y rhestr o awdurdodau datganoledig Cymru yn Atodlen 9A.
Cymal 9	10	Yn darparu y caiff Bil Cynulliad newid nifer Gweinidogion Cymru neu Ddirprwy Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i'r gofyn am uwch-fwyafrif. Hynny yw, byddai'n rhaid iddo gael cefnogaeth dwy ran o dair o gyfanswm nifer yr Aelodau Cynulliad er mwyn iddo gael ei basio
Cymal 13	11	Yn caniatáu i ddeddfwriaeth Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch atebolrwydd ariannol awdurdodau datganoledig Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn symiau sy'n deillio o Gronfa Gyfunol Cymru.
Ar ôl Cymal 45	39, 40	Mae'r gyfres hon o welliannau (39, 40, 45, 50 a 53) yn ffurfio rhan o becyn o fesurau sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth. Mae'n cynnwys dileu o Atodlen 7A gyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad i benodi a rheoleiddio ymgymeryr dŵr neu garthffosiaeth.
Cymal 46	45	Mae cymal 46, a oedd yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol bwerau ymyrryd (a) i atal cyflwyno Bil Cynulliad ar gyfer Cydsyniad Brenhinol, a (b) i gyfyngu ar gamau gweithredol Gweinidogion Cymru, ar y sail y gallent gael effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau neu systemau carthffosiaeth yn Lloegr, yn cael ei ddileu o'r Bil. Mewnosodir cymal newydd i ddarparu pŵer i Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru (ond nid dyletswydd arnynt i) gytuno ar brotocol dŵr, yn cynnwys gweithdrefn datrys anghydfod, gyda'r nod o osgoi effaith niweidiol ddifrifol drawsffiniol ar

Rhif y Cymal / Atodlen	Rhif y Gwelliant	Pwnc y Gwelliant
		adnoddau dŵr. Ar ôl cytuno ar y protocol, rhaid ei gyflwyno gerbron dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig a gerbron y Cynulliad, a bydd gofyn i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol weithredu yn unol ag ef.
Ar ôl Cymal 46	50, 53	<p>Mae dyletswydd drawsffiniol bellach, ddwyochrog ar Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol i roi ystyriaeth i fuddiannau defnyddwyr yn Lloegr a Chymru, yn ôl eu trefn.</p> <p>Ar ôl cytuno ar y protocol dŵr a'i gyflwyno gerbron y Senedd a'r Cynulliad, ceir darpariaeth i reoliadau gael eu gwneud i ddiddymu pwerau cyfredol yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd:</p> <p>(a) o dan adran 114(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i atal cyflwyno Bil Cynulliad ar gyfer Cydsyniad Brenhinol; neu</p> <p>(b) o dan adran 152 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i atal gweithredu un o swyddogaethau'r weithrediaeth</p> <p>ar y sail y gallai gael effaith niweidiol ddifrifol ar adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr neu ansawdd dŵr yn Lloegr.</p>
Cymal 56	62	Yn darparu nad yw hawl gyffredinol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i gael mynediad at wybodaeth a gedwir gan un o awdurdodau datganoledig Cymru yn gymwys i gyrrff llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.
Atodlen 1	83	Yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad mewn perthynas â rheoleiddio nifer y peiriannau hapchware y mae cyfanswm y tâl a godir i'w defnyddio dros £10 a awdurdodir o dan drwydded safle betio (heblaw trwydded mewn perthynas â thrac).
Atodlen 1, R1	78A	Y Cyfansoddiad - mae'n egluro cwmpas Mater a Gedwir yn Ôl 1.
Atodlen 1, R6	78B	Nid oes angen paragraffau 6(2) a (3) gan y bydd y Cynulliad yn gallu gwneud darpariaeth ategol yn sgil rhoi adran 108A newydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar waith.
Atodlen 1, R41	81A	Yn dileu'r mater a gedwir yn ôl yn rhan 5 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, ynglŷn ag adennill meddiant o dai annedd ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Atodlen 1, R95	85A	Olew a Nwy: yn ehangu cwmpas y mater a gedwir yn ôl i gynnwys rheoleiddio gwaith a all rwystro neu beryglu mordwyo.

Rhif y Cymal / Atodlen	Rhif y Gwelliant	Pwnc y Gwelliant
Atodlen 1, R95	85B	Olew a nwy: yn cyflwyno eithriad i'r mater a gedwir yn ôl, lle bo (a) trwyddedu morol, a (b) rheoleiddio gwaith a all rwystro neu beryglu mordwyo yn ymwneud â chwilio am betrolewm, tyllu amdano neu ei gael o dan drwydded petrolewm ar y tir yng Nghymru, mae'r materion hynny o fewn cymhwysedd y Cynulliad.
Atodlen 1, R99	85D	Yn cyflwyno eithriadau i'r mater a gedwir yn ôl ynglŷn â gwres ac aerdymheru i ddatganoli pwerau dros rwydweithiau gwres ac aerdymheru a chynlluniau cymhelliant ar gyfer gwres ac aerdymheru o ffynonellau ynni heblaw tanwydd ffosil a niwclear.
Atodlen 1, R99	85E	Yn dileu'r dehongliad o 'Renewable heat incentive scheme' oddi ar wyneb y bil. O ganlyniad i fewnosod yr eithriad i'r mater a gedwir yn ôl (gweler uchod).
Atodlen 1, E3	87A	Trafnidiaeth Forol a Thrafnidiaeth Dyfrffyrdd. Yn diwygio'r eithriad i egluro bod cyfranogiad awdurdodau tân ac achub Cymru mewn ymatebion chwilio ac achub morol o fewn cymhwysedd y Cynulliad.
Atodlen 1, E3	87B	Trafnidiaeth Forol a Thrafnidiaeth Dyfrffyrdd. Yn dileu cynnwys Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 o'r eithriad i'r mater a gedwir yn ôl (o ganlyniad i'r diwygiad ar dudalen 70, llinell 34, uchod).
Atodlen 1, F1	89A	Yn diwygio'r eithriad i roi cymhwysedd i'r Cynulliad dros ohirio taliad sy'n ddyledus i awdurdod lleol gan unigolyn mewn perthynas â chostau gofal.
Atodlen 1, L12 - eithriad	90A	Yn cyflwyno eithriad i'r mater a gedwir yn ôl ynglŷn â gwasanaethau a chyfleusterau sy'n ymwneud â mabwysiadu, fel y bydd y materion hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad.
Atodlen 1, L12 - eithriad	90B	Yn cyflwyno eithriad i'r mater a gedwir yn ôl ynglŷn â disgyblu gan rieni, fel bod hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad.
Atodlen 1, R183(c)	91A	Yn diwygio'r mater a gedwir yn ôl ynglŷn â materion cynllunio i eithrio rheilffyrdd sy'n gyfan gwbl yng Nghymru.
Atodlen 1, R184	91B	Yn dileu'r mater a gedwir yn ôl ynglŷn ag Ardoll Seilwaith Cymunedol
Atodlen 1, R185	92A	Yn cyfyngu ar y mater a gedwir yn ôl ynglŷn â phrynu gorfodol i gadw yn ôl y pwerau dros

Rhif y Cymal / Atodlen	Rhif y Gwelliant	Pwnc y Gwelliant
		iawndal mewn perthynas â phrynu gorfodol yn unig.
Atodlen 1, R186	92B	Yn cyfyngu ar y mater a gedwir yn ôl ynglŷn â rheoleiddio safonau adeiladu i dir sy'n perthyn i'r Goron neu ymgwymerwyr statudol.
Atodlen 1, M4	93B	Yn diffinio cwmipas tir y Goron a thir ymgwymerwyr statudol y mae'r mater a gedwir yn ôl ynglŷn â rheoleiddio safonau adeiladu yn gymwys iddo.
Atodlen 1, pt 3, R198	104B	Yn cadarnhau nad yw'r mater a gedwir yn ôl ynglŷn ag awdurdodau penodol yn effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â phraeseptau'r Dreth Gyngor.
Atodlen 2, para 3 (3)	104C	Mae'r cyfyngiad cyffredinol sy'n golygu na all y Cynulliad addasu'r gyfraith breifat (heblaw at ddiben datganoledig) yn gymwys i'r gyfraith ynglŷn â phrynu gorfodol.
Atodlen 2, para 5(1)	104D	Mae'r Cynulliad wedi ei wahardd rhag addasu adran 100 o Ddeddf Ynni 2008 (sy'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno trefn cymhelliad ariannol ar gyfer gwres adnewyddadwy) a rheoliadau a wneir o dan yr adran honno.
Atodlen 2, para 7(2)	104E	Rhoddir cymhwysedd i'r Cynulliad addasu adran 3(1B) newydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i newid dyddiad pleidleisio unrhyw un o etholiadau cyffredinol arferol y Cynulliad pe byddai, fel arall, yn cael ei gynnal ar yr un dyddiad â dyddiad pleidleisio etholiad cyffredinol arferol Senedd y DU neu etholiad cyffredinol Senedd Ewrop.
Atodlen 2, para 7(2)	104F	Yn galluogi'r Cynulliad i addasu adrannau 4-20 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymdrin â darpariaethau amrywiol mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad, anghymwysu rhywun i fod yn Aelod Cynulliad a chydabyddiaeth ariannol Aelodau Cynulliad.
Atodlen 2, para 7(2)	105	Yn gwahardd y Cynulliad rhag addasu Cymal 51 (Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru)
Atodlen 2, para 9(4)	106A	Yn darparu, pan roddir cydsyniad Gweinidogol i roi swyddogaeth i awdurdod a gedwir yn ôl, nad oes rhaid cael cydsyniad ar wahân os yw'r swyddogaeth y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer i'w harfer yn benodol mewn perthynas ag awdurdod arall a gedwir yn ôl.
Atodlen 2, para 9(5)	106B	Yn darparu nad yw'r cyfyngiad ar addasu swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl heb gydsyniad Gweinidogol yn gymwys i gyllido

Rhif y Cymal / Atodlen	Rhif y Gwelliant	Pwnc y Gwelliant
		comisiynwyr heddlu a throseddu drwy braeseptau'r Dreth Gyngor.
Atodlen 2, para 10(4)	107A	Yn darparu nad yw'r cyfyngiad ar ddileu swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl heb gydsyniad Gweinidogol yn gymwys i gyllido comisiynwyr heddlu a throseddu drwy braeseptau'r Dreth Gyngor.
Atodlen 2, para 11(1)(d)	107B	Yn lleihau'r cyfyngiad ar y Cynulliad rhag addasu swyddogaethau Gweinidogion y Goron o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 fel ei fod yn berthnasol i swyddogaethau sy'n ymwneud â datganiadau polisi morol.
Atodlen 2, para 11(1)(d)	107C	Yn dileu'r cyfyngiad ar y Cynulliad rhag addasu swyddogaethau Gweinidogion y Goron o dan Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007.
Atodlen 3	6, 7, 8	Yn dileu cyrff llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o Atodlen 9A - o ganlyniad i ddiwygio Cymal 4. Yn rhinwedd y Cymal 4(1)(c) diwygiedig, bydd y cyrff hyn yn parhau i fod ymhlith awdurdodau datganoledig Cymru, ond ni fydd yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (gweler Cymal 56).

Gellir gweld rhifau'r gwelliannau trwy'r dolenni a ganlyn:

Hyperddolen [HL Bill 77-I Marshalled List for Report](#)

[HL Bill 77-II Second marshalled list for Report](#)

GWELLIANNAU LLYWODRAETH Y DU A GYFLWYNWYD AR GYFER CAM Y TRYDYDD DARLLENIAID YN NHŶ'R ARGLWYDDI

Rhif y Cymal / Atodlen	Disgrifiad o'r gwelliant	Pwnc y Gwelliant
Atodlen 2	Tudalen 97, llinell 8, ar y diwedd mewnosoder “() the Open University” Tudalen 98, llinell 8, ar y diwedd mewnosoder “() the Open	Effaith y ddau welliant yw (yn ddarostyngedig i'r materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A newydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ac i'r cyfyngiadau eraill ar gymhwysedd y Cynulliad) y gall Deddf Cynulliad roi swyddogaethau i'r Brifysgol Agored, gosod swyddogaethau arni, neu ddileu neu addasu ei swyddogaethau, heb gydsyniad Gweinidogion y DU.

	University”	
--	-------------	--

Hyperddolen

[Gwelliannau i;w cynnig ar y Trydydd Darlleniad](#)